**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 4 MEHEFIN 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Meinir James, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Viv Davies, Shan Rees, Eifion Jones, Nicola Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Dim.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 14fed Mai 2026.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Fforwm Cyswllt Sir Caerfyrddin** – Derbyniwyd cadarnhad bod y Fforwm yn dal i fod ar waith gyda chyfarfodydd i'w galw maes o law. Nodwyd.
2. **Swydd Wag ar gyfer Aelod o'r Cyngor –** Nododd y Clerc fod yr hysbysiad o swydd wag wedi'i hysbysebu ar 18eg Mai 2026, gyda chais i alw etholiad erbyn 8fed Mehefin 2026 fan bellaf. Os na fydd hyn yn wir, bydd y cyfle i gyfethol i'r Cyngor yn cael ei hysbysebu.
3. **Green Gen -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Derbyniwyd gohebiaeth wrth drigolion yn gofyn i'r Cyngor ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin, PEDW a Llywodraeth Cymru ynghylch yr oedi parhaus gyda gweithredu. Cytunwyd i ysgrifennu at Bennaeth Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin ac at PEDW i fynegi pryder y Cyngor.
8. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Roedd y Clerc wedi dosbarthu cofnodion y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ar 19eg Mai 2026. Rhoddodd y Cynghorydd Nicola Jones adroddiad o'r cyfarfod. Nodwyd.

10. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
11. **Presenoldeb yr heddlu mewn Cyfarfod Cyngor neu ddigwyddiad Allgymorth Cymunedol** – Gobeithiwyd y byddai'r Swyddog Heddlu yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.
12. **Materion Gorfodi Cynllunio mewn caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
13. **Materion Gorfodi Cynllunio sy'n ymwneud â Chanolfan Adar Ysglyfaethus ym Mhantgwyn -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
14. **Meddygfa Sarn –** Nodwyd bod cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28ain Mai 2026 wedi cytuno i ailystyried cau'r Feddygfa am flwyddyn arall gyda chamau i'w cymryd yn y cyfamser i geisio penodi Meddyg Teulu. Nodwyd.
15. **PL/10552** - **Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin.** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
16. **Prosiect Is-orsaf NGED –** Derbyniwyd gwahoddiad i hyd at 8 aelod ymweld ag is-orsaf Llanllwch yn ystod mis Gorffennaf. Teimlai'r Cyngor y byddai ymweliad â safle Moriston yn fwy priodol oherwydd ei faint. Gofynnir am ystyriaeth o hyn.
17. **Cais am wybodaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch FC29/5 a 29/6 –** Derbyniwyd cadarnhad ynghylch y Llwybrau Troed / BOAT dan sylw. Nodwyd hyn.
18. **Cofnodion y Cyngor a gedwir yn Archifau'r Sir –** Derbyniwyd cadarnhad bod lleoliad cofnodion y Cyngor wedi cadarnhau. Nodwyd.
19. **Gwynt Glas –** Darparwyd adroddiadau ar y sesiynau gwybodaeth a fynychwyd ar Fferm Wynt Arnofiol Alltraeth Gwynt Glas. Nodwyd.
20. **Disgrifiad Swydd Clerc y Cyngor ac Adolygiad Contract –** Nododd y Cyng Philip Davies ei ddiddordeb. Roedd Un Llais Cymru wedi cysylltu i gychwyn yr adolygiad ac roedd y Clerc wedi gofyn iddynt gyfarfod ag Aelodau i drafod y mater fel rhan o'r broses.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** E-fwletin. Nodwyd.
2. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda -** Dywedwch eich dweud ar wasanaethau fferyllfa yn y dyfodol. Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cylchlythyr y Biwro Cymunedol. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
5. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys –** Bwletin. Nodwyd.
6. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Ymgynghoriad ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol - Gwasanaethau Strôc - Cam 2. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru –** Nodiadau Datblygu Ymarfer. Nodwyd.
8. **Menter Gorllewin Sir Gâr –** Gwahoddiad i fynychu Gŵyl Ganol Dref ar 11fed Gorffennaf 2026. Nodwyd.

9. **Cyngor Tref Cydweli –** Gwahoddiad i fynychu Gwasanaeth Dinesig y Maer ar 21ain Mehefin 2026. Bydd y Cadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o gau ffordd frys ar y C2073 yng Nghroesyceiliog ar 2il Mehefin 2026 am gyfnod o 3 diwrnod. Nodwyd.
11. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Gwaith Arolwg Coed**

Cymeradwywyd taliad yr anfoneb gan Lampeter Tree Services am swm o £2,100.00 ynghyd â £420.00 o TAW.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mai gyda chyfanswm cost o £672.00 yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Mail gyda chost o £336.00.

**9. Adroddiad Blynyddol 2025-26**

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol a oedd wedi'i harchwilio'n fewnol gan Gyfrifwyr Charles and Company. Derbyniwyd a nodwyd adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ardystio a llofnodi'r ffurflen flynyddol. Nodwyd bod balansau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn £23,503 (£21,311 2024-25).

Cymeradwyodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol a chwblhaodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r ffurflen.

Cymeradwyodd y Cyngor dalu'r Ffi Archwilio sef £200.00 ynghyd â £40.00 TAW.

Cyflwynodd y Clerc hefyd Adroddiad Blynyddol ddrafft y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025-26. Cymeradwywyd y ddogfen a bydd yn cael ei chyhoeddi ar y wefan ynghyd â'r hysbysiad cyfrifon.

Cyflwynodd y Clerc hefyd ddrafft Cynllun Hyfforddi'r Cyngor a chynllun Bioamrywiaeth a Datblygu Amgylcheddol ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2026 – 2028. Cymeradwywyd y dogfennau hyn hefyd.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ar yr Adroddiad Blynyddol a chofnodion ariannol y Cyngor.

**10. Archwilydd Mewnol 2026-27**

Ystyriodd y Cyngor benodi Archwilydd Mewnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026-27. Cytunwyd i gadw Charles and Company yn y rôl am y flwyddyn.

**11. Digwyddiadau Gymunedol 2026**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2026 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Ardd (Llysiau – Beirniadau ar 24ain Mehefin a Blodau - Dechrau Awst), trafodwyd enwebiadau ac bydd llythyrau yn cael eu danfon;
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol - Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod â Phwyllgor Sioe Amaethyddol Llandyfaelog i drafod y posibilrwydd o gystadleuaeth ar gyfer dylunio berfa addurnedig. Cytunwyd i fwrw ymlaen â hyn. Byddai'r Cyngor yn cyd-ariannu'r wobr ariannol o £75.00, cytunwyd na fyddai ffi mynediad a mynegwyd fod y Cyngor o blaid i unigolion allu cymryd rhan hefyd.

**12. Cadwyn Cadeirydd y Cyngor**

Derbyniwyd prisiau am fariau cadwyn wedi'u hysgythru.

- Wessex Awards — £21.00 y bar gan gynnwys ysgythru
- Bigbury Mint — £72.00 y bar gan gynnwys ysgythru
- Bespoke Sports Medals — £98.00 y bar gan gynnwys ysgythru
- Award Medals — £9.00 y bar gan gynnwys ysgythru (er nad yr un math o far).

Cytunwyd i brynu'r bariau angenrheidiol gan Wessex Awards.

**13. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Datganodd y Cynghorydd Nicola Jones ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon**
   **Cymdeithas Pensiynwyr Llandyfaelog a'r Cylch –** Cytunwyd ar gyfraniad o £100.

**13. Cyfrifon**
**Cymeradwywyd y Taliadau canlynol:**

1. **Michael Leefe** **£672.00** Taliad Mai (gweler eitem 8)
2. **Michael Leefe** **£336.00** Torri gwair Mai (gweler eitem 8)

| **3.** | **Description** | **Salary** | **Expenses** | **Total Gross** | **Tax Deducted** | **Employers NI Contribution** | **Net Pay** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **May Salary** | **£775.54**<br>**£26.00** | **£17.10**<br>**£27.65** | **£846.28** | **£310.40** | **£53.78** | **£535.88** |

4. **Lampeter Tree Services** **£2,520.00** Gwaith coed (gweler eitem 7.1)
5. **Charles and Company** **£240.00** Archwiliad Fewnol £200.00 gyda TAW £40.00 (gweler eitem 9)
6. **Cyng Philip Davies** **£420.00** Lwfans Cadeirydd 2025-26
7. **Cymdeithas Pensiynwyr Llandyfaelog a'r Cylch** **£100.00** Rhodd (gweler eitem 13.1)

**14. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Roedd y Clerc wedi adrodd cyflwr y ciosg ffôn yng Nghroesyceiliog i BT i'w asesu a'i atgyweirio. Gofynnir i'r Cynorthwyydd y Cyngor strimio o amgylch yr ardal hon ynghyd â Phwmp Croesyceiliog.
2. Bydd eisiau torri ymyl y ffordd o amgylch ardal gyffordd Glanant / Heol y Lan yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.
3. Nodwyd nad oedd yna bygythiad uniongyrchol bresennol o gau Eglwys Santes Ann, byddai'r mater yn parhau i gael ei adolygu.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 2il Gorffennaf 2026.**